Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Penllwyn
Capel Bangor
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3LP

17/12/2024

Annwyl Catryn Lawrence

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2024

Yn ddiweddar, cawsom gyfle i ymweld ag Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn, sy'n cydweithio fel ffederasiwn. Buom yn ystyried sut mae'r ysgolion yn mynd i'r afael ag argymhellion yr arolwg craidd a gynhaliwyd yn ystod tymor yr Hydref 2022. Isod mae crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Gynnal teithiau dysgu ym mhob dosbarth
- Gyfarfod gyda disgyblion, staff ac arweinwyr
- Edrych ar waith disgyblion
- Graffu ar ddogfennau perthnasol

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i gefnogi'r holl ddysgwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu**

- Mae'r pennaeth a'r staff ar draws y ffederasiwn wedi cydweithio'n gydwybodol er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i argymhelliad yr arolygiad craidd. Maent wedi craffu'n ofalus ar y modd y maent yn sicrhau fod gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn cael dylanwad cadarnhaol ar gynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion.
- Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd buddiol i staff drafod addysgeg effeithiol, er enghraifft wrth ganolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ystyried a gweithredu ar adborth wrth werthuso a datblygu eu gwaith. Bellach, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn deall pwysigrwydd ymateb i sylwadau staff a'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn creu eu meini prawf llwyddiant eu hunain ar gyfer gwahanol dasgau, ac mae'r gwaith hwn yn dylanwadu'n gadarn ar eu cyflawniad. O ganlyniad, mae llawer yn cyflawni'n effeithiol ar draws yr ystod medrau.

- Mae arweinwyr wedi addasu trefniadau nosweithiau rhieni ac erbyn hyn, mae'r disgyblion eu hunain yn trafod eu gwaith gyda'u rhieni gan nodi'r agweddau lle maent wedi magu hyder gyda'u dysgu. Mae hyn yn datblygu perchnogaeth y disgyblion o'u gwaith yn effeithiol.
- Mae'r staff yn adnabod cydbwysedd addas o addysgu uniongyrchol a chyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd destunau byd go iawn. Er enghraifft, yn y dosbarth dysgu sylfaen, mae cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar trwy drafod eu hanifeiliaid anwes wrth ymweld â'r milfeddyg. Mae hyn yn hyrwyddo eu hyder wrth siarad a mynegi barn yn effeithiol.
- Mae athrawon yn cynllunio ystod gynyddol o weithgareddau pen agored er mwyn annog annibyniaeth y disgyblion. Er enghraifft, yn nosbarth y disgyblion hŷn, maent yn dethol pa agweddu i'w cynnwys mewn adroddiad ffeithiol yn dilyn gwaith maes yn canolbwyntio ar yr afon Rheidol. Mae hyn yn datblygu hyder y disgyblion wrth ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol ffurfiau.
- Mae'r athrawon yn cyflwyno cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddethol lefel yr her ar gyfer gwahanol weithgareddau, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dethol y dasg sydd â'r disgwyliadau mwyaf addas ar eu cyfer hwy. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'n gadarn.

**Datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion, gan gynnwys eu gallu i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, gwella eu gwaith eu hunain, a dylanwadu ar waith yr Ysgol**

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn cynnig cydbwysedd da o ddysgu a arweinir gan oedolion a gweithgareddau dysgu annibynnol. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth ddatblygu annibyniaeth. Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wneud penderfyniadau, er enghraifft wrth herio y disgyblion ieuengaf i gasglu a didoli sbwriel yn yr ardal allanol. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ieithyddol yn annibynnol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn darllen amrediad o lyfrau a chofnodi gwahanol anifeiliaid mewn tabl ar y wal.
- Mae athrawon y dosbarth dysgu sylfaen yn darparu ystod eang o adnoddau pwrpasol sy'n gyfuniad o offer go iawn a theganau pwrpasol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol, mathemategol, creadigol ac ieithyddol. Mae'r offer yn hygyrch i'r disgyblion sy'n eu galluogi i fod yn annibynnol a chydweithio'n effeithiol wrth gymhwyso eu medrau.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion hŷn ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt atgyfnerthu eu medrau drwy gwblhau heriau addas yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hydrus wrth drafod eu gwaith ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn ei ddatblygu ymhellach.
- Darperir cyfleoedd da i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, yn dilyn cais senedd yr ysgol am ragor o weithgareddau gwyddonol maent wedi cydweithio gyda'r coleg lleol i greu rhaglen gyfrifiadurol er mwyn rheoli'r broses o ddyfrhau planhigion yng ngardd yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o ymchwil a dysgu proffesiynol i ddatblygu gwybodaeth a medrau'r staff. Mae'r diwylliant cynhyrchiol o gydweithio yn helpu gyrru gwelliant. Mae hyn wedi dylanwadu ar hyder staff i

roi dewisiadau i’r disgyblion hŷn am sut yr hoffent gofnodi a chyflwyno eu gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672313

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol